

Cymru'n Gweithredu dros Ffoaduriaid: gwybodaeth i Aelodau Cynulliad

Cynghrair Ffoaduriaid Cymru

Cynghrair o gyrff ydym ni sy'n gweithio yng Nghymru gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid ar bob cam o'u taith, a gyda'r cymunedau lle maent yn byw. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd er budd ceiswyr lloches a ffoaduriaid, i sicrhau fod ein hadnoddau prin yn cael eu defnyddio i'r budd gorau ac i siarad gydag un llais ar bolisiau ac ymarfer sy'n effeithio ar bobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru.

Cymru: Cenedl Noddfa

Mae 'Dinas Noddfa' yn fudiad o bobl ar draws y DU ac Iwerddon sy'n ceisio creu diwylliant o letygarwch a chroeso i bobl sy'n chwilio am noddfa. Yn ogystal â dwy 'Dinas Noddfa' a sefydlwyd yn Abertawe a Chaerdydd, mae pobl ledled Cymru wedi bob ymateb i'r argyfwng ffoaduriaid mewn trefi a phentrefi ar hyd a lled y wlad, gan sefydlu cynlluniau sy'n cynnig cefnogaeth a chroeso.

Dylai haelioni a thosturi pobl Cymru gael eu cydnabod a'u dathlu. Mae Cynghrair Ffoaduriaid Cymru'n cefnogi sefydlu Cymru yn 'Genedl Noddfa', y cyntaf o'i bath. Gall Llywodraeth Cymru chwarae ei rhan i wireddu hyn drwy gefnogi'r mudiad yn gyhoeddus, a thrwy gyflawni polisiau ac ymarfer sy'n hybu diogelwch a chynhwysiant i bob ceisiwr lloches a ffoadur yng Nghymru.

Yr Argyfwng Ffoaduriaid

Mae'r argyfwng ffoaduriaid mwyaf ers yr Ail Ryfel Byd yn gwaethygu bob dydd.

Mae Uchel Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid yn adrodd y cynnydd blynyddol mwyaf erioed yn niferoedd ffoaduriaid a phobl wedi'u dadleoli, hyd at 59.5 miliwn dros y byd i gyd. Mae un o bob 122 person dynol yn ffoadur, yn geisiwr lloches neu'n berson wedi'i ddadleoli. Mae dros hanner y rhain yn blant. Mae gwrthdaro ac erledigaeth wedi gorfodi dros bedair miliwn o ffoaduriaid Syriaidd i mewn i wersylloedd yng Ngwlad yr Iorddonen, Libanus a Thwrci. Cofnododd y Sefydliad Ymfudo Rhyngwladol farwolaethau dros 2,600 o bobl wrth groesi Môr y Canoldir yn eu hymgais i ddod o hyd i ddiogelwch.

Cynllun Adsefydlu Pobl Fregus Syria (SVPRS)

Bwriad yr SVPRS, mudiad drwy'r DU, yn gweld 20,000 o ffoaduriaid Syriaidd yn cael eu hadleoli i wersylloedd ffoaduriaid erbyn 2020. Rydym yn ymfalchïo yn ymateb Cymru, a welodd bobl Cymru, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn dangos arweiniad a thosturi wrth gynnig diogelwch a chroeso.

Er y bydd yn arbed nifer o fywydau, mae 20,000 dros 5 mlynedd yn annigonol iawn yn wyneb argyfwng dyngarol nad gwelwyd mo'i debyg. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn adrodd fod dros 42,000 o bobl yn cael eu dadleoli neu eu gorfodi allan o Syria bob dydd. Rhaid i ni barhau â'n hymdrechion a gwneud mwy.

Ceiswyr lloches yng Nghymru

Er bod argyfwng Syria wedi deffro llawer ohonom i brofiadau dychrynlyd ffoaduriaid, bu ceiswyr lloches gyda ni yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd. Anfonwyd y rhan fwyaf ohonynt i fyw yma gan system 'wasgaru' y Swyddfa Gartref.

Ym Mai 2015 roedd 2,355 o bobl yn ceisio lloches yng Nghymru (ffynhonnell: y Swyddfa Gartref)

- o dan 0.1% o'n poblogaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl o Eritrea, y Swdan, Irac, Iran a Syria, sydd wedi ffoi rhag trais ac erledigaeth tebyg i'r rheiny sy'n cyrraedd o dan yr SVPRS. Maent yn disgwyl am fisoedd neu flynyddoedd i gael penderfyniadau ar eu ceisiadau, tra'n byw ar *uchafswm* o £36.95 yr wythnos yr un, heb hawl i weithio, a mynediad cyfyngedig at addysg. Mae llawer yn disgyn i mewn ac allan o gyni llwyr, o ganlyniad i gyfuniad o bolisi'r Swyddfa Gartref, diffyg cyngor cyfreithiol, a thoriadau i asiantaethau gwirfoddol sy'n rhoi cymorth.

Mae system 'ddwy haen' yn ymwreiddio, lle mae'r nifer bychan o bobl sy'n cyrraedd o dan yr SVPRS yn cael eu trin yn dda, tra bo mwyafrif y ceiswyr lloches yng Nghymru'n wynebu tlodi ac allgau cynyddol.

Bydd y Bil Mewnfudo presennol, a ddaeth i ben ei Drydydd Darlleniad yn senedd y DU ar 1 Rhagfyr, yn gwaethygu'r sefyllfa hon drwy dynnu cynhaliaeth lloches oddi wrth blant yn ogystal ag oedolion, a gorfodi plant i amddifadedd.

Mae pob ceisiwr lloches yng Nghymru angen triniaeth deg a thrugarog. Croesawn y ffaith fod pawb yn sylweddoli cyflwr y ffoaduriaid o Syria; bellach mae angen i ni fod yn effro i gyflwr y ceiswyr lloches sydd eisoes yn byw yn ein plith.

Er nad yw materion ymfudo wedi'u datganoli i Gymru, mae gan Lywodraeth Cymru'r grym a'r ddyletswydd i sicrhau fod, yng Nghymru:

- POB UN sy'n ceisio noddfa rhag erledigaeth yn cael eu trin â'r un gofal, tosturi a pharch
- neb yn cael ei adael yn amddifad;
- fod plant sy'n ceisio lloches yn cael eu trin fel plant i ddechrau, a'u diogelu a'u gwarchod;
- fod sefydliadau, gwasanaethau, awdurdodau lleol a chymunedau'n cael eu hannog a'u cefnogi i groesawu a gwerthfawrogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ddangos arweiniad ac atebolrwydd gwleidyddol drwy

- sicrhau fod deilliannau cynlluniau gwasanaethau adleoli yn cael eu monitro'n gyson, fel y gellir sefydlu systemau effeithiol
- Defnyddio pwerau datganoledig dros gydraddoldeb, tai a gofal cymdeithasol i sicrhau fod pawb sy'n byw yng Nghymru, yn cynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, yn cael eu trin gyda'r un parch a gofal ar draws y wlad.

Beth gall Llywodraeth Cymru ei wneud:

1. Parhau i ymateb i'r argyfwng ffoaduriaid, a gwneud llwybrau diogel a chyfreithiol yn Ewrop.

Dweud wrth Lywodraeth y DU fod angen i ni adsefydlu 20,000 o ffoaduriaid o Syria cyn gynted â phosibl, a dangos pa mor gyflym y gellir gwneud hyn yng Nghymru

Dangos ymrwymiad hirdymor i adsefydlu ffoaduriaid drwy gynllun Porth y DU, yr SPVRS a chynlluniau adsefydlu ehangach, a chefnogi galwadau i'r DU groesawu cyfran deg o'r ceiswyr lloches sydd yn Ewrop yn barod.

Siarad o blaid ymateb gydlynol Ewrop gyfan i sicrhau diogelwch pobl sy'n teithio yn Ewrop

2. Cefnogi system loches drugarog

Rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i gyflwyno system loches deg a thrugarog, yn cynnwys

- cynnydd mewn cyfraddau cynnal lloches o £36.95 y person yr wythnos
- diwedd i amddifadedd
- gwell gallu i wneud penderfyniadau ar geisiadau lloches
- diwedd i gadw i mewn pobl ddiniwed sy'n ceisio lloches. Er nad oes canolfannau cadw yng

Nghymru, mae pobl yn cael eu cadw yng Nghymru a'u cymryd i ganolfannau cadw mewn llefydd eraill. Ni ddylai hyn ddigwydd yng Nghymru.

3. Dod i ben ag amddifadedd yng Nghymru

Nid oes gan geiswyr lloches anghenus unrhyw le i fyw, a dim hawl i dai cyhoeddus; dim arian, dim mynediad at arian cyhoeddus neu fudd-daliadau, a dim hawl i weithio. Mae gorfodi amddifadedd ar bobl fregus wedi'u dadleoli yn warth, ac nid oes lle iddo yng Nghymru.

Gall Llywodraeth Cymru:

- Fynnu fod Llywodraeth y DU yn stopio defnyddio amddifadedd i greu ofn yn y system loches, a chreu amddifadedd yng Nghymru.
- Sefydlu cronfa amddifadedd fel nad oes unrhyw un yn amddifad yng Nghymru, waeth beth fo'u cenedl neu statws ymfudo. Mae hyn eisoes yn ei le yng Ngogledd Iwerddon, drwy Gronfa Argyfwng yr OFMDFM.

4. Gweithredu ar ddeddfwriaeth newydd y DU

Gofyn i gynrychiolwyr Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi ymateb yn gryf i Fil Ymfudo presennol y DU, sy'n cynnig gwneud plant yn y system loches yn amddifad.

Cynllunio sut gellir lliniaru effaith y Bil yng Nghymru, os caiff ei basio, i sicrhau nad oes unrhyw deuluoedd neu blant yn cael eu gadael yn ddigartref ac yn amddifad.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eisoes wedi cydnabod y cynnydd tebygol mewn amddifadedd, ac wedi gofyn i Lywodraeth Cymru drafod â'r Swyddfa Gartref effaith y mesurau hyn yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio a mynnu ymateb gan Lywodraeth y DU ynghylch

- sut bydd y cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru yn berthnasol i'r cynigion, ac yn effeithio ar ddyletswyddau ac ymatebion Awdurdodau Lleol;

- y sicrwydd y bydd Allau yn parhau i allu gweithredu lle mae pryderon am blant amddifad neu bobl fregus;

- sut bydd dyletswyddau cynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hariannu.

5. Galw am ddatganoli'r system cynnal ceiswyr lloches

Galw am ddatganoli'r system cynnal lloches, yn cynnwys lletya a gwasgaru ceiswyr lloches yng Nghymru. Mae Adroddiad Comisiwn Smith ar ddatganoli yn yr Alban wedi gwneud argymhellion tebyg. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru nid yn unig i gyflwyno system cynnal lloches ddyngarol, ond bydd yn gwella polisi gwasgaru, gyda manteision i'r ceiswyr lloches, cymunedau lleol a chydlyniant cymunedol; ac yn caniatáu trosi'n hawdd o gynhaliaeth lloches i fudd-daliadau prif ffrwd neu waith i bobl a gafodd statws ffoaduriaid.

6. Ariannu gwasanaethau cyngori, eiriolaeth a chefnogaeth

Er gwaethaf cymhlethdodau'r system, prin yw'r gwasanaethau cyngor a chefnogaeth i geiswyr lloches yng Nghymru. Nid yw gwasanaethau galw heibio yn gallu diwallu'r angen, a thorrwyd cymorth cyfreithiol i'r graddau na all pobl sydd â hawl i ddiogelwch wneud hawliadau effeithiol. Mae hyn yn arwain at gynnydd mewn gwrthod lloches yn anghywir, gwrthod cefnogaeth yn anghywir, ac amddifadedd. Nid oes gwasanaeth eiriolaeth i blant sy'n ceisio lloches, fel sydd yn Lloegr, er gwaethaf ymrwymiad blaenorol gan Lywodraeth Cymru i roi darpariaeth eiriolaeth addas yn ei lle.

Mae angen cyllid, yn debyg i'r hyn a sefydlwyd gan Weithrediaeth yr Alban, i gydlynu, cyd-

gynhyrchu a chyflwyno gwasanaethau cynghori, eiriolaeth a chefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.

7. Datblygu strategaeth ymfudo

Mae Cymru angen Strategaeth Ymfudo Gynhwysfawr, i gynnwys y Cynllun Gweithredu Cynnwys Ffoaduriaid a ddiweddarwyd, a mynd i'r afael â thlodi, y llafurlu ac adnewyddiad economaidd Cymru, a'n hymrwymiaidau i gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae Tasglu a Bwrdd Gweithrediadau yr SVPRS yn batrwm ar gyfer cydlynu a monitro gweithgaredd i bob ymfudwr, yn cynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

8. Sicrhau cyfranogiad a chynhwysiant ceiswyr lloches a ffoaduriaid

Mae'n rhaid i geiswyr lloches a ffoaduriaid allu cymryd rhan mewn datblygu polisi cenedlaethol a lleol, fforymau gwleidyddol, a chyd-gynhyrchu gwasanaethau i ffoaduriaid yng Nghymru.

Rhaid i'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Ffoaduriaid ymateb i anghenion pob ceisiwr lloches a ffoadur sy'n byw yng Nghymru, waeth beth oedd eu siwrne yma, a sicrhau triniaeth gyfartal. Rhaid iddo gael mecanwaith atebolrwydd cadarn, gyda goruchwyliaeth gwleidyddol strategol i fonitro deilliannau.

9. Cefnogi 'Cymru: Gwlad Noddfa'

Annog addewidion o gefnogaeth i Wlad Noddfa gan awdurdodau lleol, Aelodau Cynulliad ac ASau, a chyrrff o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

Adnabod a gweithredu camau y gall Llywodraeth Cymru ac ACau eu cymryd tuag at wneud Gwlad Noddfa yn realiti.

Addo parhau i ddefnyddio iaith gadarnhaol wrth siarad am geiswyr lloches a ffoaduriaid, a siarad yn erbyn a chywiro iaith sy'n gwahaniaethu neu'n rhagfarnu, neu wybodaeth ffug, am bobl sy'n ceisio diogelwch yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Hannah Wharf, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu yng Nghyngor Ffoaduriaid Cymru a Chadeirydd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru:

Hannah.Wharf@welshrefugeecouncil.org.uk





Taff Housing Association



Ethnic Youth Support Team
Tim Cymorth Ieuenctid Ethnig



Unity without Uniformity - Diversity without Division



promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai



Tros Gynnal Plant
Standing up for Children



Celebrating Britain's
diverse society



Just Across
Wrecsam • Wrexham



Wales Nation of Sanctuary



Cymru Cenedl Noddfa